

Amodau defnyddio Tail Sych wedi'i Ailgylchu (RMS) fel sarn i dda godro yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae Erthygl 36 o Reoliad (CE) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 21 Hydref 2009 yn nodi rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac sy'n diddymu Rheoliad (CE) Rhif 1774/2002 ("y Rheoliadau ABP") sy'n galluogi'r defnydd o RMS fel sarn anifeiliaid i'r graddau eich bod chi (fel y gweithredwr) yn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli i iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu os bydd RMS yn cael ei ddefnyddio fel sarn ar gyfer gwartheg yn unol â'r amodau a nodwyd isod, na fydd risgiau annerbyniol i iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid. Mae'r amodau hyn yn seiliedig ar ymchwil i ddefnydd RMS ar ffermydd yn Lloegr.

Bydd defnyddio RMS mewn modd sy'n arwain at risgiau annerbyniol i iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid yn arwain at drosedd (o dan Reoliad 17 o Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/517 (C.60)).

Amodau

- 1. Mae'n rhaid cynhyrchu RMS gyda thail/slyri gwartheg amrwd o adeiladau anifeiliaid a/neu fuarthau yn unig**

Ni ddylid cynnwys tail o rywogaethau da byw eraill ar gyfer cynhyrchu RMS, i osgoi cyflwyno pathogenau allanol a allai effeithio ar iechyd gwartheg.

- 2. Ni ddylid defnyddio deunydd sydd wedi'i gompostio neu ei dreulio**

Gallai sborau rhai mathau o facteria, yn enwedig rhai sy'n gwrthsefyll gwres, gael eu hannog gan gompostio. Gall crynodiad rhy uchel o sborau mewn llaeth arwain at golledion yn ystod y broses o gynhyrchu caws a lleihau oes silff llaeth wedi'i basteureiddio.

Bydd rhoi tail drwy dreuliwr hefyd yn codi tymheredd, a all effeithio ar lwyth pathogenau. Hyd nes bod gennym fwy o wybodaeth (er mwyn gallu asesu'r risgiau'n briodol), mae Llywodraeth Cymru'n ystyried na ddylid defnyddio RMS a gynhyrchir o allbwn treuliwr. Yn ogystal, ni ddylid defnyddio gweddillion treuliad anaerobig sy'n cynnwys stoc porthiant o ffynonellau y tu allan i'r fferm gan y gallai beri risg annerbyniol ychwanegol.

3. Dylid ond defnyddio RMS fel sarn i wartheg sydd yn yr un grŵp epidemiolegol â'r gwartheg y daeth ohono

I leihau'r risg o drosglwyddo clefyd, mae'n rhaid i RMS ddod o'r uned lle cafodd ei gynhyrchu. Ni ddylid symud slyri neu dail rhwng unedau naill ai cyn neu ar ôl prosesu.

Grŵp epidemiolegol yw grŵp o anifeiliaid sy'n dod i gysylltiad â'i gilydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

4. Ni ddylid symud RMS rhwng daliadau

Yn yr un modd, i leihau'r risg o drosglwyddo pathogenau, ni ddylid symud slyri neu dail sydd i'w ddefnyddio i gynhyrchu sarn rhwng daliadau, naill ai cyn neu ar ôl prosesu.

5. Ni ddylid cynhyrchu RMS o dail/slyri buchesi sy'n destun cyfyngiad swyddogol am glefydau hysbysadwy.

Mae rhestr o glefydau hysbysadwy ar wefan Defra (<http://www.defra.gov.uk/animal-diseases/notifiable/>). Y prif glefyd hysbysadwy sy'n destun pryder yw Clwy'r Traed a'r Genau, gan y gall cyfrwng heintus fod yn bresennol mewn carthion ac wrin hyd at bedwar diwrnod cyn i arwyddion clinigol ymddangos.

6. Dim ond mewn buchesi sydd â Statws heb TB swyddogol (OTF) ar gyfer TB buchol y gellir cynhyrchu a defnyddio RMS

Gallai RMS o dail/slyri sy'n deillio o gyfnod o statws nad yw'n OTF fod yn halogedig ac ni ddylid ei ddefnyddio ar ôl adennill statws OTF.

7. Ni ddylid defnyddio tail o wartheg erthyl o dan ymchwiliad am frwselosis fel RMS

Mae bioddiogelwch trylwyr yn bwysicach nag erioed mewn perthynas ag achosion tybiedig o brwselosis ar ffermydd lle mae RMS yn cael ei ddefnyddio fel sarn.

8. Ni ddylid gwaredu deunyddiau eraill, fel hylifau geni a'r brych, yr holl dail o ardaloedd lloea a llaeth gwastraff drwy eu hychwanegu at dail/slyri sy'n mynd i fod yn RMS

Mae'r brych a hylifau geni'n risg bosibl ar gyfer trosglwyddo clefydau ac ni ddylid eu gwaredu mewn slyri ar unrhyw adeg felly. Ni ddylid ychwanegu llaeth gwastraff, sy'n destun cyfnod cadw o'r gadwyn fwyd, at y pwll slyri, gan fod yna fwy o risg o ddatblygu ymwrthedd i wrthfotigau.

9. **Ni ddylid rhannu cyfarpar ar gyfer trafod a phrosesu porthiant ac RMS. Os oes unrhyw gyfarpar yn cael ei rannu (llwythwyr ac ati) dylid ei lanhau'n drylwyr rhwng pob achos o'i ddefnyddio.**

Bwriad yr amod hwn yw atal croeshalogi porthiant neu fwyd anifeiliaid.

10. **Os symudir unrhyw gyfarpar gwahanu rhwng gwahanol unedau epidemiolegol, mae'n rhaid ei lanhau'n drylwyr a'i ddiheintio cyn ei symud a'i ddefnyddio eto.**

Ar dir mawr Ewrop, mae symud cyfarpar halogedig wedi'i gysylltu â throsglwyddo pathogenau o un fferm i'r llall.

11. **Dylid ond defnyddio RMS fel sarn i wartheg dan do dros ddeuddeg mis oed**

Mae stoc ifanc yn fwy agored i haint ac yn fwy tebygol o gael pathogenau yn eu carthion. Bydd risgiau o drosglwyddo clefyd yn cael ei leihau drwy atal lloï iau na deuddeg mis oed rhag dod i gysylltiad â thail/slyri gwartheg llawn dwf. Mae'n rhaid symud unrhyw loeau sy'n cael eu geni mewn ardaloedd lle mae sarn sy'n defnyddio RMS cyn gynted â phosibl i leoliad sy'n defnyddio sarn addas.

12. **Mae'n rhaid pasteureiddio llaeth a chynhyrchion llaeth o fuchesi sy'n defnyddio RMS.**

Mae pob deunydd sarn yn ffynhonnell bosibl o halogiad i laeth. Gall micro-organebau a'u sborau fynd ar y deth o'r sarn a thrwy'r broses odro gall fynd i'r tanc llaeth. Fel mesur diogelwch, ni ddylid defnyddio RMS ar ffermydd sy'n gwerthu llaeth neu gynhyrchion llaeth heb eu pasteureiddio.

13. **Mae'n rhaid cynhyrchu RMS o uned gwahanu slyri, sydd wedi'i gynllunio i'r pwrpas, ac sy'n cynhyrchu solidau tail sydd ag o leiaf 34% ohono'n Ddeunydd Sych.**

Mae slyri'n cael ei wahanu gyda pheiriant i ffracsiwn hylif a ffracsiwn "solid", fel arfer drwy ddefnyddio sgrif neu wasgu gyda rholiwr. Mae angen i'r cyfarpar allu tynnu digon o ddŵr i sicrhau ffracsiwn solidau o 34% o ddeunydd sych o leiaf. Os yw'r deunydd yn rhy wlyb (is na 34%) mae'n anaddas ac ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer sarn gwartheg.

Mae'n rhaid defnyddio RMS o fewn 12 awr i'w greu i osgoi compostio neu dreulio'r deunydd a newid ei natur a'i gyfansoddiad microbiolegol yn sylweddol.

14. **Dim ond ar welyau ciwbicl y dylid defnyddio RMS, ac nid fel sarn dwfn mewn llociau rhydd neu ar fuarthau**

Dim ond mewn ciwbiclau y dylid defnyddio RMS, naill ai fel haen ar ben matresi, neu fel sarn ciwbicl hyd at 15cm mewn dyfnder. Ni ellir ei ddefnyddio mewn ardaloedd lloea, gan fod lloi newydd-anedig yn agored i glefyd Johne's neu bathogenau eraill.

15. Ni ddylid paratoi RMS o slyri/tail gwartheg;

- 1) sy'n cael eu trin am glefyd, yn cynnwys y cyfnod cadw hiraf o'r gadwyn fwyd ar gyfer meddyginiaethau a roddwyd,**
- 2) sydd ag arwyddion clinigol o glefyd, neu**
- 3) y gwyddir eu bod yn cludo pathogenau enterig e.e. os ydynt wedi profi'n bositif i salmonelosis.**

16. Ni ddylid cynhyrchu RMS o garthion gwartheg sydd wedi dod i'r fuches o fannau eraill, am gyfnod o fis ar ôl eu cyflwyno.

17. Ni ddylid cynhyrchu RMS o dail/slyri a gynhyrchwyd mewn corlannau cwarantín

Mae'n debygol y bydd cynnwys carthion a statws imiwnedd gwartheg sydd wedi dod i mewn yn wahanol, felly gallent gyflwyno pathogenau newydd a bod yn fwy agored i'r rhai sy'n endemig yn y fuches.

ARFERION GORAU A ARGYMHELLIR

Dylid dilyn yr argymhellion yn yr adran hon fel arfer gorau cyfredol.

1. Cyn ystyried defnyddio RMS fel sarn i wartheg, darllenwch y canfyddiadau ymchwil diweddaraf (gweler y ddolen yn yr adran Ystyriaethau Ychwanegol). Dylech ofyn hefyd i'ch milfeddyg helpu i asesu a yw'r system yn addas i'ch fferm a'ch system reoli chi. Mae ymchwil wedi dangos, os yw'r amodau a'r arferion gorau a nodwyd yn y ddogfen hon yn cael eu dilyn, bod RMS yn gweithio'n dda fel sarn ciwbicl i wartheg llawn dwf ar y rhan fwyaf o ffermydd, a'i fod yn hybu iechyd a lles gwartheg. Fodd bynnag, ar rai ffermydd, gall arwain at ganlyniadau clefyd sylweddol a difrifol a bydd unrhyw ddefnydd sy'n arwain at risgiau annerbyniol i iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid yn arwain at drosedd (o dan Reoliad 17 o Reoliadau Sgil-gynhyrchion (Gorfodi) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/517 (C.60)).
2. Dylai defnyddwyr RMS fonitro iechyd a lles gwartheg, yn enwedig iechyd cadair buwch, ac ansawdd llaeth a gynhyrchir ar raddfa fawr, fel rhan o'u cynllun iechyd buches milfeddygol. Dylid adolygu cynllun iechyd y fuches yn rheolaidd gyda'ch milfeddyg a dylid newid neu roi'r gorau i ddefnyddio RMS os oes arwyddion ei fod yn peryglu iechyd a lles gwartheg, neu ansawdd y llaeth, neu'r ddau.

3. Dylid hysbysu gweithwyr y fferm am bwysigrwydd hylendid personol yn ystod ac ar ôl trafod RMS.
4. Dylid cael trefniadau paratoi rhagorol ar gyfer y gwartheg adeg godro (e.e. paratoi tethi cyn eu godro a chyn-dipio), diheintio cyfarpar godro a hylendid gwartheg.
5. Dylid rheoli'r sarn/stâl yn rhagorol, yn cynnwys:
 - a. ychwanegu RMS i'r sarn, mewn meintiau cyfyngedig, er mwyn hwyluso sychu ymhellach,
 - b. rheoli sarn i leihau 'cynhesu' sy'n gallu achosi i facteria luosogi ar ôl defnyddio,
 - c. cynllunio a rheoli sarn i leihau halogiad gydag wrin a deunydd carthion ffres, a
 - d. gwaredu deunydd budr ffres o'r sarn yn aml (bob dydd o leiaf).
6. Dylai'r awyru fod yn ddigonol ac ni ddylid gorstocio, i sicrhau bod RMS yn sychu ymhellach ar ôl ei roi ar y sarn ac i leihau'r lefelau amonia yn yr ardal dan do.
7. Ni ddylid gwaredu dŵr a/neu hydoddiannau a ddefnyddiwyd mewn golchiad bath traed yn y slyri/tail i'w ddefnyddio fel sarn RMS.
8. Dylai buchesi gael cynllun wrth gefn y gellir ei weithredu'n gyflym pe bai angen rhoi'r gorau i ddefnyddio RMS, fel colli statws OTF.

Ystyriaethau Ychwanegol

Darllenwch bob cynllun sicrwydd fferm perthnasol fel cynllun y "Tractor Coch" cyn penderfynu a ydych am ddefnyddio RMS. Mae rhai cynlluniau sicrwydd fferm yn gofyn i chi gwblhau rhestr wirio asesu. Gall defnydd diogel a chyfreithiol o RMS gael ei gynnwys mewn archwiliad rheolaidd, gyda methiant i gydymffurfio'n arwain at dynnu statws achrededig.

Mae'r wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf ar y rheoliad ABP yn:
<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/animal-by-products/?skip=1&lang=cy>

Mae canlyniadau'r astudiaethau i'r defnydd o dail sych wedi'i ailgylchu ar wefan AHDB Dairy (Dairy Co cyn hyn): www.ahdb.org.uk